CYFRES A6

# amserbeibl

## Astudiaethau Beiblaidd – Safon 4

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth




Astudiaethau Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, ph, rh, th




DARLLENWCH
Genesis 11: 27-32
12:1-9



ADNODAU ALLWEDDOL
Actau 7: 2-4

## Astudiaeth 1 Abraham – Ei Alwad



**Awgrymiadau am Adnodau Eraill i'w Darllen**
Joshua 24: 2 a 3 Hebreaid 11: 8-10

Er bod Abraham yn byw filoedd o flynyddoedd yn ôl, mae'r ffordd yr oedd yn ymddiried yn Nuw wedi bod yn esiampl i Gristnogion am lawer o ganrifoedd. Pan ddarllenwn ni amdano gyntaf yn y Beibl, ei enw yw Abram.


**C Enwch y bobl oedd yn perthyn i Abram.** 3

1. Ei dad ______ 2. Ei wraig ______ 3. Ei nai ______

Roedd Abram a'i deulu yn byw ym Mesopotamia.

**C Ar y map marciwch:**

1. Y ddinas y daethon nhw ohoni.
2. Y dref y cyrhaeddon nhw iddi.
3. Y wlad yr oedden nhw'n mynd iddi.




3

Doedd teithio ddim yn rhwydd yn y dyddiau hynny. Byddai mynd ar daith o gannoedd o filltiroedd yn orchest fawr iawn. Byddai'n rhaid symud llawer iawn o bobl, gweision, rhai i ofalu am y gwartheg a'r gwartheg eu hunain. Cyn cychwyn ar y fath siwrnai, byddai'n rhaid i chi fod yn siwr eich bod yn gwneud y peth iawn!

**C Pwy ymddangosodd i Abram? (Darllenwch yr Adnodau Allweddol)**

______


**C Beth a ddywedodd wrtho? (Genesis 12: 1)**

______

**C Pam yr aeth ef? (Hebreaid 11: 8)** 3

______

Mae'n ymddangos nad oedd Abram yn gwbl ufudd. Yn lle gadael ei deulu'n gyfangwbi, fe aeth â'r rhan fwyaf ohonyn nhw gydag ef. Ac yn lle mynd yn syth i'r wlad a orchmynnodd Duw iddo, fe arhosodd yn Haran tan i'w dad farw. Mae Duw am i ni fod yn gwbl ufudd. Os yw Duw'n gorchymyn, rhaid i ni wneud! Os yw Duw'n ein hanfon, rhaid i ni fynd! Os nad yw Cristnogion yn ufudd i Air Duw (Y Beibl), allan nhw ddim derbyn y fendith y mae Duw am ei rhoi iddyn nhw.




Cafodd Abram ei annog i fod yn ufudd i orchmynion Duw oherwydd yr addewidion a wnaeth Duw iddo. Sylwch pa mor aml y mae Duw'n dweud wrtho, "Fe wna i ....."

**C Pa bum peth y dywedodd Duw y byddai'n eu gwneud? (12: 2-3)**

5

Doedd Abram ddim yn gwybod pa ffordd i fynd (darllenwch Hebreaid 11: 8), ond roedd yn ymddiried yn Nuw i'w arwain. Dydyn ni ddim yn gwybod manylion ei daith hir, ond rydyn ni'n gwybod i Abram a'i deulu gyrraedd Canaan yn y diwedd.

**C Gwnewch restr o bawb a aeth gydag Abram i Ganaan.**

3

Efallai bod Abram yn siomedig pan gyrhaeddodd Ganaan. Roedd pobl yn byw yno'n barod, ond mae'n siwr i'r addewid pwysig a gafodd gan Dduw ei galonogi'n fawr (darllenwch adnod 7).

**C Sut y gwnaeth Abram ymateb i'r addewid newydd hwn gan Dduw?**

2

Mae'r digwyddiad hwn yn hanes Abram yn ganlyniad cwrdd â Duw a Duw yn ei alw

**C Darllenwch yr Adnodau Allweddol, ac ysgrifennu'n UNION beth ddywedodd Duw wrth Abram am ei wneud.**

1

Pan fydd Duw yn ein galw ni, fel y galwodd Abram, rhaid i ni ymddiried ynddo, ei ddilyn a bod yn ufudd iddo. Mewn gwirionedd, fe ddylen ni roi ein bywydau yn gyfangwbl iddo.

**cyfanswm**